



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Rhagfyr 2023 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 5 December 2023 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors: Siân Maehrlein (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, John Adams-Lewis, Olwen Davies, David Maehrlein, Teresa Harries, Richard Davies, Nick Bolton, Stephen Greenhalgh, Llinos Haf Jones (**Cyfieithydd/Translator**), Mike Lewis (Tivyside) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

Cyflwyniad gan Sue Brett ynglŷn â Bendith – grŵp Crefft Plant Aberteifi.

Grŵp Cristnogol yw Bendith sy'n darparu gofod cynnes, bwyd a chrefftau am ddim i blant a'u rhieni yn Aberteifi. Rhannodd Sue ychydig o wybodaeth am eu gwaith a rhoddodd daflen i'r cyngorwyr. Bydd y cyngor yn ystyried cais am grant gan y grŵp ym mis Ebrill i gynorthwyo gyda chostau eu sesiynau.

Presentation by Sue Brett regarding Bendith – Cardigan's Children's Craft group.

Bendith are a Christian group providing a warm space, free food and craft to children and their parents in Cardigan. Sue shared some information about their work and gave the councillors a hand out. The council will consider a grant application from the group in April to assist with the costs incurred from their sessions.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng Siân Maehrlein, bawb i'r cyfarfod. Roedd y Cyng Olwen Davies yn dymuno hysbysu cyd-aelodau fod Capel Bedyddwyr Mount Zion yn cynnig gofodau cynnes bob nos Fawrth rhwng 3.00 – 8.00pm, croeso i bawb.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Siân Maehrlein, welcomed everyone to the meeting. Cllr Olwen Davies wished to inform fellow members that Mount Zion Baptist Chapel are offering warm spaces every Tuesday evening between 3.00 – 8.00pm, all welcome.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Cyng Elaine Evans, materion personol; Cyng Clive Davies, gwrthdaro rhwng cyfarfodydd y cyngor; y Cyngorydd Philippa Noble, ymrwymadau teuluol; Cyng Richard Jones, ymrwymadau gwaith; Cyng Trystan Phillips, Cyngerdd Nadolig Ysgol Penparc.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr Elaine Evans, personal matters; Cllr Clive Davies, clash of council meetings; Cllr Philippa Noble, family commitments; Cllr Richard Jones, work commitments; Cllr Trystan Phillips, Penparc School Christmas Concert.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

Dim wedi'i ddatgan.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

None declared.

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 7 Tachwedd 2023.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 7 Tachwedd yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 7 November 2023.

The Councillors proposed that the Tuesday, 7 November 2023 council minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2023.

- Mae Mr Christopher O'Donnell wedi'i benodi'n Bachan Deche y cyngor tref. Ei ddyddiad cychwyn swyddogol fel Bachan Deche hunangyflogedig yw 1 Ionawr 2024, ond mae cyfnod o drosglwyddo eisoes ar y gweill rhwng Christopher a John Morris.
- Ar argymhelliad gan yr heddlu yn ein cyfarfod PACT diweddar rwyf wedi ymchwilio i "Barthau Rheoli Galwadau Diwahoddiad". Mae angen tystiolaeth gref, o fewn yr ardal, i awgrymu bod galw diwahoddiad yn broblem a fydd goblygiadau cost i'r cynllun. Rwyf wedi gofyn i'r heddlu ddarparu tystiolaeth o unrhyw broblemau gyda galwadau diwahoddiad yn ein plwyf.
- Mae Eglwys y Santes Fair wedi estyn gwahoddiad i bob cynghorydd i'w gwasanaeth carolau am 5.00yh nos Sul 17 Rhagfyr 2023. Rydym hefyd wedi derbyn gwahoddiad gan yr RNLI sy'n cynnal eu gwasanaeth carolau am 6.00yh ar yr un noswaith yn Eglwys Llandudoch. Bydd y Maer yn darllen yn y ddau wasanaeth, gan wneud rhedid cyflym o un i'r llall.
- Rydych chi i gyd wedi cael gwahoddiad i ymuno â Gorymdaith Llusernau Cawr Aberteifi ar nos Wener 8 Rhagfyr 2023. Os ydych chi'n bwriadu ymuno a allech chi ymgynnull yn Theatr Byd Bychan am 6.30yh os gwelwch yn dda. Y Maer, ei chymar a'r Dirprwy Faer fydd yn arwain yr orymdaith eleni.
- Nid yw cyfrifiadur y swyddfa bellach yn gweithio fel y dylai, credaf iddo gael ei brynu yn ôl yn 2012, dylem fod yn ddiolchgar ei fod wedi para mor hir. Rwyf wedi cael dyfynbris gan Telemat am £1,154.95 sy'n cynnwys costau sefydlu a'r rhaglenni angenrheidiol. Dylai'r gosodiad fod cyn gynted â diwedd yr wythnos hon.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 7 November 2023.

- Mr Christopher O'Donnell has been appointed as the town council handyman. His official start date as a self-employed handyman is the 1 January 2024, but a period of handover is already underway between Christopher and John Morris.
- On a recommendation from the police in our recent PACT meeting I have researched Cold Calling Control Zones. There needs to be strong evidence, within the area, to suggest that cold calling is a problem and there is a cost implication. I have asked the police to provide evidence of any issues with cold calling within our parish.
- St Mary's Church have extended an invitation to all councillors to their carol service at

5.00pm on Sunday 17 December. We have also received an invitation from the RNLI who are holding their carol service at 6.00pm on the same day in St Thomas' Church, St Dogmaels. The Mayor will be reading at both services, making a quick dash from one to the other.

- You have all been invited to join the Cardigan Giant Lantern Parade on Friday 8 December 2023. If you intend to join in, could you congregate at the Small World Theatre at 6.30pm please. The Mayor, her consort and the Deputy Mayor will be leading the parade this year.
- The office computer is no longer working as it should, I believe it was purchased back in 2012, we should be grateful if it has lasted this long. I have received a quote from Telemat for £1,154.95 which includes set up charges and the necessary programmes. Installation should be as soon as the end of this week.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Dim wedi'i ddatgan.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None declared.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

No planning applications received.

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/12/23	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Rhagfyr/December)</i> <i>Band Lydan (Rhagfyr) / Broadband (December)</i>	A9 A20	D/D	£250.00(0.00) £20.00 (0.00)
06/12/23	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Tachwedd/November)</i>	A5	BACS	£1381.88(0.00)
06/12/23	HMRC – <i>Taliad TWE ar gyfer 6 Hydref – 5 Tachwedd 2023/ PAYE payment for 6 October – 5 November 2023.</i>	A16	BACS	£266.91(0.00)
06/12/23	<i>Bachan Deche / Handyperson (Tachwedd/November)</i>	A19	BACS	£351.00(58.50)
14/11/23	<i>Gwasanaeth cyfieithu/Translating service</i>	A18	BACS	£70.00(0.00)
09/11/23	Top Notch Loos – <i>Ffair Aberteifi / Cardigan Fair</i>	D13	BACS	£312.00(52.00)
10/11/23	<i>CSC – Ffi weinyddu ar gyfer cau ffordd ar gyfer troi golau Nadolig ymlaen/ CCC – Administration fee for closing the road to switch on Christmas lights</i>	D13	BACS	£225.00(0.00)
12/11/23	CARIAD – PA system <i>Sul y Cadoediad / Remembrance Sunday</i>	A23	BACS	£100.00(0.00)
02/12/23	CARIAD – Troi Nadoig ymlaen / Christmas lights switch on	B1	BACS	£80.00(0.00)

14/11/23	Lluniaeth Sul y Cofio / Refreshments Remembrance Sunday	A23	BACS	£140.00(0.00)
17/11/23	LAS Recycling Ltd – <i>Biniau sbwriel ar gyfer diwrnod ffair</i> / Refuse bins for fair day	D13	BACS	£510.00(425.00)
28/11/23	David Evans Engraving service	A7	BACS	£53.16(0.00)
30/11/23	M & E Pearce Ltd	B1	BACS	£102.66(0.00)
04/12/23	Parc Piliu	B1	BACS	£252.00(42.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/11/2023	Lloyds Bank: <i>Llog</i> / Interest	£88.31
09/2023	Fair Stall booking payments	£2100.00

b) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
181	CAVO: <i>Digwyddiadau lles y Gaeaf – Neuadd y Dref, 13 Rhagfyr 2023 2.00 – 6.00yh</i> / Winter Wellbeing Event – Guildhall, 13 December 2023 2.00 – 6.00pm.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 06/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/11/2023.
182	<i>Ymgynghoriad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar Gynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040</i> / Mid and West Wales Fire and Rescue Service Consultation on Community Risk Management Plan 2040.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 07/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/11/2023.
183	Rebecca Jones- <i>Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol, Dŵr Cymru</i> / Community Engagement Manager, Welsh Water : <i>Diweddariad ar Waith Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi</i> / Cardigan Wastewater Treatment Works update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 07/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/11/2023.
184	Dafydd Llywelyn – <i>Comisiynydd Heddlu a Throsedd</i> / Police and Crime Commissioner: <i>Bwletin Tachwedd</i> / November Bulletin.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 09/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/11/2023.
185	<i>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</i> / Welsh Local Government Association: <i>Ymgynghoriad Strategaeth Diolgelwch Ffyrdd</i> / Road Safety Strategy Consultation.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 10/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/11/2023.
186	Dafydd Llywelyn – <i>Comisiynydd Heddlu a Throsedd</i> / Police and Crime Commissioner: <i>Ymgynghoriad Cyllideb Plismona</i> / Policing Budget Consultation.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 10/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/11/2023.
187	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Tachwedd a Rhagfyr</i> / Remote training sessions that are taking place in November and December.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/11/2023.
188	Carole Davis, Solo Clothing – <i>Gwrthwynebiad i leoliad stondinau'r farchnad ar Ddiwrnod Ffair</i> / Objection to positioning of the market stalls on Fair Day.	<i>Mae cynghorwyr yn cydymdeimlo â Ms Davies, ond mae'r ffair yn ddigwyddiad poblogaidd ar y calendr blyneddol ac yn dod â llawer iawn o bobl i'r dref. Ystyrir mai bychan iawn yw canlyniad y digwyddiad undydd hwn i fusnesau lleol</i> / Councillors sympathise with Ms Davies, but the fair is a popular event on the annual calendar and brings a great deal of people into the town. The consequence of this one day event to local businesses is considered to be minimal.
189	Claire Rees – <i>Arweinydd y Cyfryngau, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol</i> / Media Lead, Office of the Future Generations Commissioner: <i>Strategaeth</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 14/11/2023.</i>

	<i>Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru / Future Generations Cymru Strategy – CYMRU CAN.</i>	For your information. Forwarded to all councillors on 14/11/2023.
190	<i>Lleisiau Eraill – Gwahoddiad i ôl-barti. Other Voices – Afterparty invitation.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 17/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/11/2023.
191	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Gweminar am ddim Un Llais Cymru a IRPW – Dydd Llun 27 Tachwedd 2023 / Free webinar One Voice Wales and IRPW – Monday 27 November 2023.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 17/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/11/2023.
192	<i>Carolyn Oakley – Dyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Pwll Nofio Aberteifi 1.00pm Dydd Llun 18 Rhagfyr yn y pwll nofio / Date for Cardigan Swimming Pool AGM 1.00pm Monday 18 December at the swimming pool.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/11/2023.
193	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cyflwyniad i Dîm Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru / Introduction to the One Voice Wales' Cost of Living Crisis Team.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/11/2023.
194	<i>Archwilio Cymru / Audit Wales – Datganiad i'r Wasg / Press Release: Twyll mewn cyngor Cymuned yn amlygu pwysigrwydd dilyn prosesau llywodraethu a rheoli ariannol priodol / Fraud at community council highlights importance of following proper governance and financial management processes.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 20/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/11/2023.
195	<i>Richard James, George Davies and Evans: Cadarnhad i fwrw ymlaen â phrydles Clwb Rygbi Aberteifi / Confirmation to proceed with the lease of Cardigan Rugby Football Club.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 23/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/11/2023.
196	<i>Glen Johnson: Diolch am y llythyr o gefnogaeth / Thank you for the letter of support.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 27/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/11/2023.
197	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Gweminar Un Llais Cymru a IRPW – Dydd Llun 27 Tachwedd 2023 / One Voice Wales and IRPW webinar – Monday 27 November 2023.</i>	<i>Copi o'r gyflwyniad / Copy of the presentation.</i>
198	<i>Tesni Woodfall – Swyddog Cydraddoldeb a Chynhwysiant, CSC / Equalities and Inclusion Officer, CCC: Bwletin Tlodi Ceredigion / Ceredigion Poverty Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/11/2023.
199	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Bwletin Newyddion Tachwedd / November News Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/11/2023.
200	<i>Adroddiad Blynnyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2024 / Independent Remuneration Panel for Wales Draft Annual Report – February 2024.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/11/2023.
201	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Stryd William rhwng 08.00 -23.59 ar 09/01/24-10/01/24 / William Street from 08.00 – 23.59 on 09/01/24/-10/01/24.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 29/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/11/2023.
202	<i>Dr Catrin Jones - Swyddog Polisi, Un Llais Cymru / Policy Officer, One Voice Wales: Ymateb i ynghyngoriad newydd Bil Cyllid Llwyodraeth Leol (Cymru) / Response to new consultation Local Government Finance (Wales).</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 29/11/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/11/2023.
203	<i>Steve Rice – Trysorydd, Cyfeillion Pwll Nofio Aberteifi / Treasurer, Friends of Cardigan Swimming Pool: Cadarnhad ar fynychwyr Cyfarfod Blynnyddol y Pwll Nofio / Confirmation on attendees to the Swimming Pool AGM.</i>	<i>Clerc i anfon rhestr o fynychwyr at Mr Rice ar gyfer y ddau slot amser / Clerk to forward list of attendees to Mr Rice for both time slots.</i>

204	Dewi Jones – <i>Swyddog Ymgysylltu Rhanddeiliaid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Stakeholder</i> Engagement Officer, Welsh Local Government Association: <i>Wythnos Hinsawdd Cymru, 4 Rhagfyr 2023 / Wales Climate Week, 4 December 2023.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 01/12/2023.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 01/12/2023.
-----	---	---

c) Cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol y Brenin Siôr V – materion yn codi.

Eitem 11/23/3 a) Baw Cŵn – Gofynnodd y Cyng John Adams-Lewis i'r clercc ofyn i CSC pa brosesau sydd ynghlwm wrth greu ls-ddeddf yn gwahardd cŵn o'r meysydd chwaraeon a mannau gwyrdd eraill. Cytunodd y cynghorwyr i drafod hyn ymhellach unwaith y bydd adborth gan y cyngor sir wedi dod i law. Roedd pawb yn cytuno bod baw cŵn yn broblem gynyddol.

Eitem 11/23/3 b) Nodi mannau parcio yn y maes parcio.

Clerc i gael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith hwn, bydd hyn yn cael ei ystyried yn ein cyfarfod cyllideb mis Ionawr.

Eitem 11/23/3 c) a d) Bwlch yn y ffens ar Greenland Meadows, Ramp ar gyfer mynediad i'r anabl.

Penderfynodd cynghorwyr wneud un o'r prosiectau hyn ond nid y ddau, bydd cyllideb i alluogi'r naill brosiect neu'r llall i fynd yn ei flaen yn cael ei hystyried yn ein cyfarfod cyllideb ym mis Ionawr.

King George V Advisory Committee minutes – matters arising.

Item 11/23/3 a) Dog fouling – Cllr John Adams-Lewis requested the clerk to ask CCC what processes are involved to enable a Byelaw to be created banning dogs from the sports fields and other green areas. Councillors agreed to discuss this further once feedback from the county council is received. All agreed that dog fouling is a growing issue.

Item 11/23/3 b) Remarking parking spaces in the car park.

Clerk to obtain quotes for this work, this will be considered in our January budget meeting.

Item 11/23/3 c) and d) Gap in the fence on Greenland Meadows, Ramp for disabled access on Greenland Meadows.

Councillors resolved to do one of these projects but not both, a budget to enable either project to go ahead will be considered in our January budget meeting.

d) Cytuno ar ddyddiad ar gyfer llwybr papur, cyfarfod Ionawr a chyfarfod cyllideb blyneddol.

Atgoffwyd y Cynghorwyr Clive Davies a Stephen Greenhalgh i fynychu'r swyddfa i gynnal yr ymarfer llwybr papur ar ddyddiad sy'n addas ar eu cyfer. Bydd dyddiad cyfarfod nesaf y cyngor yn cael ei ohirio wythnos tan nos Fawrth 9 Ionawr 2024, sy'n galluogi'r clercc i beidio â gorfod gweithio dros gyfnod y Nadolig a rhai o Wyliau'r Banc. Cynhelir y cyfarfod cyllideb blyneddol ar yr un noson yn union ar ôl ein cyfarfod misol.

Agree date for paper trail, January meeting and annual budget meeting.

Cllrs Clive Davies and Stephen Greenhalgh were reminded to attend the office to conduct the paper trail exercise on a date that is suitable for them. The date of the next council meeting will be postponed by one week to Tuesday 9 January 2024, this enables the clerk to not have to work over the Christmas period and some of the Bank Holidays. The annual budget meeting will take place on the same evening immediately after our monthly meeting.

e) Diweddariad ar doiledau Chancery Lane gan y Cyng Clive Davies. (Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Clive Davies oherwydd gwrthdaro yng nghyfarfodydd cyngor).

Gofynnodd swyddogion yr awdurdod lleol i dri chyflenwr i dendro. Wedi ymweld â'r safle gyda chlercc y dref a swyddogion, roedd y fanyleb amlinellol ar gyfer y gwaith wedi'i ddrafftio, gan gynnwys system dalu i ategu costau cynnal a chadw a rhedeg yr unedau.

Os bydd cynlluniau i ailagor yn mynd yn eu blaenau costau parhaus i'w hystyried yw glanhau, dŵr, pŵer a gwaith cynnal a chadw.

Y fanyleb a ddyfeisiwyd ac a anfonwyd at y darpar gyflenwr:

- Cael gwared ar sosbenni toiledau, sinciau a phlymwaith cysylltiedig yn ôl yr angen
- Cyflenwi 2 x system golchi dwylo Wallgate i giwbiclau safonol
- Cyflenwi 3 padell toiled Wallgate i giwbiclau safonol a phobl anabl
- Cyflenwi a gosod panels Laminedig Gradd Solet ar waliau a chreu nenfwd ffug gyda'r un cynnyrch
- Cyflenwi a gosod 2 x drws diogelwch dur i giwbiclau safonol
- Cyflenwi a gosod 3 x system talu i gael mynediad i bob ciwbicl
- Cyflenwi a gosod hand rail DDA newydd
- Addurno allanol a gwneud pethau'n dda
- Amnewid teils tô lle bo angen
- Angen holl waith trydanol
- Darparu'r holl nwyddau traul, offer a chyfarpar

Derbyniwyd dau ymateb a threfnwyd dau ymweliad safle gyda daliwr allwedd i agor yr adeilad i brisio'r gwaith, ond un dyfynbris yn unig sydd wedi ei gyflwyno sy'n siomedig. Fel y soniwyd yn y diweddariad blaenorol, mae grant parth cyhoeddus ar gael gan Lywodraeth Cymru a gall fod hyd at 70% o'r gost. Mae'r ffenestr grant ar agor tan fis Rhagfyr 2024 ac mae penderfyniadau ar ôl eu cyflwyno o fewn 8 wythnos. Penderfyniad y panel grant yw a ellir cymhwyso'r uchafswm o 70%, mae hyn yn dibynnu ar yr angen a'r budd ychwanegol a ddaw yn ei sgil i'r dref, yn bersonol rwy'n meddwl ei bod yn bodloni'r meini prawf yn llawn, dyma pam y dewisais y toiledau hyn dros y toiledau eraill sydd ar gau oherwydd ei leoliad canolog a mynediad lefel stryd.

Gan fod hwn yn gyfarfod cyhoeddus, ni chredaf ei fod yn addas sôn am gyflenwyr a phrisiau. Roedd yr un dyfynbris a dderbyniwyd yn fwy na'r gyllideb a osodwyd fel terfyn uchaf ar gyfer yr arian cyfatebol a gytunwyd gan y cyngor tref. Byddaf yn parhau â'r gwaith papur ar gyfer y cais am grant ar gyfer y prosiect hwn, yn ail-gysylltu â'r ddau gyflenwr arall na wnaeth dendro ac yn gofyn i'r clerc nodi'r swm arian cyfatebol i'w drafod yng nghyfarfod y gyllideb ym mis Ionawr.

Un peth i'w nodi hefyd yw y bydd y toiledau cyhoeddus a dynnwyd o faes parcio Greenfield yn cael eu hailagor fel rhan o ddatblygiad y farchnad. Bydd y rhain yn agor yn chwarter cyntaf 2024. Nid yw mynediad i'r toiledau hyn wedi'i ddatgelu eto. Rwy'n cynnig bod y clerc yn codi'r ymholiad hwn gyda'r ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau fel y gallwn helpu i reoli disgwyliadau ar y cyfleusterau newydd hynny.

Update on Chancery Lane toilets by Cllr Clive Davies (a written report was submitted by Cllr Clive Davies due to a clash in council meetings.)

Local authority officers requested three separate suppliers to tender. Having visited the site with town clerk and officers, the outline specification for the work had been drafted, this included a payment system to help supplement maintenance and running costs of the units. If plans to reopen proceed continuous costs to be considered are cleaning, water, power, and maintenance work.

The specification devised and sent to the potential supplier:

- Removal of existing toilet pans, sinks and associated plumbing as necessary
- Supply of 2 x Wallgate handwash systems to standard cubicles
- Supply of 3 x Wallgate toilet pans to standard and disabled cubicles

- Supply and installation of Solid Grade Laminate boarding to walls and create a false ceiling with the same product
- Supply and installation of 2 x steel security doors to standard cubicles
- Supply and install of 3 x pay systems to gain access to all cubicles
- Supply and installation of new DDA handrail kit
- External decoration and making good
- Roof tile replacement where required
- All electrical works required
- Provision of all consumables, tools and equipment

Two responses were received and two site visits with keyholder to open the building to price the work were arranged, since this work only one quote has been submitted which is disappointing.

As mentioned in the previous update, there is a public realm grant available from Welsh Government and it **can be** up to 70% of the cost. The grant window is open until December 2024 and decisions after submission are within 8 weeks. It is the grant panel's decision whether the max 70% can be applied, this depends on the need and added benefit it bring to the town, personally I think it meets the criteria fully, this is why I chose these toilets over the other closed units due to its central location and high street level access.

As this is a public meeting, I do not think it suitable to mention suppliers and prices. The one quote received exceeded the budget set as a ceiling for the match funding agreed by the town council. I will continue with the paperwork for the grant application for this project, re-approach the other two suppliers who did not tender and request the clerk to note the match funding amount for discussion in the January budget meeting.

One thing to note also is the public toilets removed from the Greenfield car park will be reopened as part of the indoor market development. These will open in the first quarter of 2024. Access to these toilets have not yet been disclosed. I propose the clerk raises this query with the building preservation trust so we can help manage expectations on those new facilities.

f) Datganiad elw a colled Ffair Aberteifi / Profit and Loss Statement for Cardigan Fair.

Arian i fewn / Monies in	£	Arian allan / Monies out	£
Rent for pitches	2620.00	Ffi cau ffordd - CSC	775.00
		Top notch Loos	312.00
		LAS Recycling Ltd	510.00
		A James – road sweeper (est)	600.00
Cyfanswm / Totals	2620.00		2197.00
Elw / Profit: £423.00			

Roedd cynghorwyr yn falch iawn o weld bod elfen marchnad stryd y ffair yn datgan elw bach. Diolchwyd i'r holl gyfranwyr a drefnodd y digwyddiad a'r rhai fu'n helpu ar y diwrnod, ond crybwyllwyd y Cynghorydd Richard Davies, sydd wedi rhoi'r mwyaf o amser eleni, i sicrhau bod y digwyddiad hwn yn parhau i gael ei redeg yn esmwyth.

Councillors were very pleased to see that the street market element of the fair declared a small profit. Appreciation was given to all contributors arranging the event and those who helped on the day, but an additional mention was given to Cllr Richard Davies, who has given the most time this year, making sure this event continues to be run smoothly.

g) Archebu cloc rasio.

I'w osod ar Agenda Ionawr.

Purchase of a large clock to time races.

To be placed on the January Agenda.

h) Archebu sleid newydd Nadolig i'r Gobo.

Penderfynwyd prynu sleid Nadolig newydd.

Purchase a new Christmas slide for the Gobo.

It was resolved that a new Christmas slide be purchased.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer.

- Braint oedd agor y ffair fis diwethaf. Diolch Mr Vernon Studt am eich haelioni yn rhoi reidiau am ddim i oedolion a phlant yr anghenion ychwanegol, rwy'n siŵr eu bod wedi cael amser gwych.
- Buom yn ddigon ffodus i dderbyn gwahoddiad gan Faer Trefdraeth, Mr Tim Thomas, i fynychu ei wasanaeth Maerol ysblennydd sydd â hanes balch o 900 mlynedd. Traddodiad pur oedd Seremoni Barwniaeth Cemais, a'r unig un yn y DU a gynhaliwyd ar yr un pryd â Gwasanaeth Maer Llundain. Daeth y noson i ben gyda band, bwffe a chwmni da.
- Roeddwn yn falch iawn o gael cais i gyflwyno siec i gynrychiolwyr Gofal Cancer Aberteifi ar ran Clwb Rhedeg Aberteifi, yn dilyn rhediad 10k llwyddiannus y Maer.
- Un o heriau anoddaf y flwyddyn hyd yma yn fy rôl fel Maer oedd beirniadu'r arddangosfeydd Ffenest Siop Nadolig hardd yn y dref. Cerddodd fi a David o gwmpas sawl gwaith yn ystod y dydd a gyda'r nos cyn i ni lwyddo i ddewis enillydd. Roedd y safon yn uchel iawn ac mae'n ddrwg iawn gen i nad oeddwn yn gallu rhoi gwobr i bawb a gymerodd ran. Llongyfarchiadau i'r enillydd eleni, Warren & Shires, a hefyd i Mundos a Teifi Blooms a dderbyniodd dystysgrifau canmoliaeth uchel.
- Er gwaethaf y glaw, roedd presenoldeb mawr ar gyfer cynnau golau Nadolig. Canodd disgyblion Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ysgol Gynradd Aberteifi, Ysgol Penparc ac Ysgol Aberporth yn hyfryd. Roedd Siôn Corn yn brysur iawn yn ei groto yn cyfarfod y plant. Fe wnaeth Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Iau Aberteifi ac y Sgowntiaid helpu i gynhesu pawb gyda gwin cynnes a siocled poeth. Arhosodd rhai siopau ar agor ar gyfer y digwyddiad hefyd.
- Bues yn agor yn swyddogol "Fine Things at No 28", siop newydd hardd yn gwerthu crefftau hyfryd. Dymunwn bob llwyddiant iddynt. I ddathlu eu hagoriad, gwnaethant gyfrannu £50 i Cardigan Cancer Care, arwydd hyfryd, diolch.
- Bydd fy nghyd-gynghorwyr yn ymuno â mi ddydd Gwener, pan fydd gennyf y dasg gyffrous o arwain ein Parêd Llusernau drwy'r dref.

Mayors' Diary.

- It was a privilege to open the fair last month. Thank you Mr Vernon Studt for your generosity giving free rides to the additional needs' adults and children, I am sure they had a great time.
- We were lucky enough to accept an invitation from the Mayor of Newport, Mr Tim Thomas, to attend his spectacular Mayoral service which boasts a proud history of 900 years. The Barony of Cemais Ceremony was pure tradition and the only one in

the Uk held at the same time as the London Mayoral Service. The evening culminated with a band, buffet and good company.

- I was very pleased to be asked to present a cheque to Cardigan Cancer Care representatives on behalf of Cardigan Running Club, following the successful Mayor's 10k run.
- One of the hardest challenges of the year so far in my role as Mayor, was the judging of the beautiful Christmas Shop Window displays in town. Myself and David walked around several times during the day and evening before we managed to pick a winner. The standard was very high and I am very sorry that I was unable to award a prize to all involved. Congratulations to the winner this year, Warren & Shires, also to Mundos and Teifi Blooms who received certificates for highly commended.
- Despite the pouring rain there was a large attendance for the Christmas light switch on. The pupils from Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ysgol Gynradd Aberteifi, Ysgol Penparc and Ysgol Aberporth sang beautifully. Santa was very busy in his grotto meeting the children. The Scouts and Cardigan Junior School PTFA helped warm everyone up with mulled wine and hot chocolate. Some shops also remained open for the event.
- Officially opened "Fine Things at No 28", a beautiful new shop selling lovely craft makes. We wish them every success. To celebrate their opening, they donated £50 to Cardigan Cancer Care, a lovely gesture, thank you.
- I will be joined by my fellow councillors on Friday, when I have the exciting task of leading our Lantern Parade through the town.

b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Cefais wahoddiad i agoriad sesiynau galw heibio y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn Neuadd Eglwys y Santes Fair. Roedd gair wedi mynd o gwmpas ac roedd yna bobl yn aros i weld rhywun am gyngor. Roedd yn dda gwybod y bydd llawer o ddefnydd o'r gwasanaeth.
- Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd Eglwys y Santes Fair gyda thrigolion Gloster Row a Heol Santes Fair i drafod llifogydd a chynllun lloches brys. Cysylltais â Steffan Gruffydd o CSC sef y Swyddog Argyfyngau Dinesig a threfnwyd cyfarfod a oedd yn eithaf cynhyrchiol. Mae wedi cytuno i ddod i lawr am gyfarfod ymhellach gyda thrigolion Heol Santes Fair a Gloster Row ac mae'n bwriadu dod â rhywun o CNC. Byddant yn rhannu cyngor ac yn rhoi cymorth i breswylwyr sy'n gorfod symud allan o'u cartrefi ac i mewn i Neuadd Eglwys y Santes Fair oherwydd llanw uchel.
- Y mis hwn rwyf wedi mynychu gweithdy Ymwybyddiaeth o Gasineb a gynhaliwyd gan CSC a gweithdy Tuedd Anymwybodol.
- Mynychais agoriad y Ffair er bod y tywydd yn ofnadwy ar adegau, braf oedd gweld y ffair eto.
- Mae llwybr troed y Drawbridge i'r Capel Gorffwys wedi'i glirio unwaith eto, mae'r rhwystrau ar draws y llwybr a ddefnyddir gan y cyhoedd wedi'u rhoi i'r naill ochr, os bydd y cyngor yn eu rhoi yn ôl, bydd y cyhoedd yn eu symud eto, rwy'n siŵr. Mae CSC wedi dadflocio'r draen sy'n rhedeg drwy'r wal, felly mae'r llwybr bellach yn glir o ddŵr. Addawodd y swyddog gadw llygad ar hyn o hyn ymlaen gan ei fod yn credu bod y draen yn cael traferth gyda faint o ddŵr wyneb sy'n rhedeg i lawr y llwybr; oherwydd maint y bibell sy'n rhedeg drwy'r wal.
- Rwyf wedi ysgrifennu at Steve Moore o Hywel Dda i ofyn iddo am arwyddion sy'n rhoi cyfarwyddiadau i'r Ganolfan Iechyd Integredig.
- Ymunais â'r Maer, y Cyng Siân Maehrllein, yn natliadau pen-blwydd Jig-So yn 31 a gynhaliwyd yn Eglwys Bywyd Newydd ar 21 Tachwedd. Roedd yn fore hyfryd yn llawn

plant yn mwynhau eu hunain ac yn gyfle i ddal i fyny gyda'r ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr anhygoel yno.

- Cafodd y Cyng Maehrlein a minnau daith ddiddorol o amgylch y gwaith dŵr yn Aberteifi yn dysgu am yr holl driniaethau a systemau. Roedd gwaith drilio yn gwirio'r tir yn cael ei wneud oherwydd bydd angen ymestyn y gwaith pan fydd y gwaith newydd yn cael ei adeiladu. Gofynnais a oedd unrhyw gynlluniau i'w wneud yn gynt, ond nid oeddent yn ymroddedig. Cawsom ein ffilmio ar gyfer eu gwaith hyrwyddo.
- Hyfryd oedd gweld y goleuadau Nadolig yn mynd ddydd Sadwrn, cymaint o drueni am y tywydd.

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- I was invited to the Citizen's Advice Bureau opening of drop-in sessions at St Mary's Church Hall. Word had got around and there were people waiting to see someone for advice. It was good to know the service will be well used.
- There was a meeting held at St Mary's Church Hall with residents of Gloster Row and St Mary Street to discuss flooding and an emergency shelter plan. I contacted Steffan Gruffydd of CCC who is the Civic Contingencies Officer and we arranged a zoom meeting which was quite productive. He has agreed to come down for a meeting with residents of St Mary Street and Gloster Row and intends to bring someone from NRW. They will share advice and give support to residents who must move out of their homes and into St Mary's Church Hall due to high tides.
- This month I have attended a Hate Awareness workshop held by CCC and an Unconscious Bias workshop.
- Attended the opening of the Fair despite the weather being awful at times, it was lovely to see the fair again.
- The Drawbridge footpath to the Chapel of Rest has been cleared once again, the barriers across the walkway used by the public have been put to one side, if the council put them back, the public will just move them again, I'm sure. CCC have unblocked the drain running through the retaining wall, so the path is now clear of water. The officer promised to keep an eye on this from now on as he believes the drain is struggling with the amount of surface water running down the path; due to the size of the pipe running through the wall.
- I have written to Steve Moore of Hywel Dda to ask him about signs giving directions to the Integrated Health Centre.
- I joined the Mayor, Cllr Siân Maehrlein, at Jig-So's 31st birthday celebrations held at New Life Church on 21st November. It was a lovely morning full of children enjoying themselves and a chance to catch up with the amazing trustees, staff and volunteers there.
- Cllr Maehrlein and myself had an interesting tour around the water works in Cardigan learning about all the treatments and systems. Drilling work checking the ground was being carried out because the works will need extending when the new plant is built. I did ask if there were any plans to do it sooner, but they were non-committal. We were filmed for their promotional work.
- It was lovely to see the Christmas lights go on Saturday, such a shame about the weather.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- Oherwydd nifer o faterion gyda thaliadau parcio yn y Ganolfan Hamdden, mae'r camerâu wedi'u hailgyfeirio i'r lleoliad cywir ac mae'r amseroedd parcio wedi'u newid. Ar ôl llawer o ohebiaeth, mae hysbysiadau parcio rhai pobl wedi cael eu dirymu neu wedi cael ad-daliad o'r taliadau.

- Ymunais â chasgliad bychan o gyd-gynghorwyr, ac aelodau o'r Llang Brydeinig yn y Senotaff ar 11 Tachwedd i gydnabod y dyddiad pwysig hwn. Cafwyd gwasanaeth byr gan y Parch Alan Kent. Cynhaliwyd y gwasanaeth swyddogol gyda'r cyhoedd y diwrnod wedyn. Roedd yn anrhydedd i gael cwmni Arglwydd Raglaw Dyfed, Ms Sara Edwards a Chadeirydd Cyngor Ceredigion, y Cyng Maldwyn Lewis. Mae hwn yn ddyddiad mor bwysig i anrhydeddu'r aberth a wnaed gan gynifer.
- Mynychais Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Depo, caffai a lleoliad ar gyfer ein pobl ifanc, lle gallant gael mynediad at nifer o wasanaethau os oes angen.
- Mwynhais prynhawn difyr iawn ym Mhencadlys Heddlu Dyfed Powys yn Nantycaws. Eglurwyd sawl agwedd o'u gwaith i ni gan gynnwys y defnydd cynyddol o dronau a TCC.
- Ymunodd y Cyng Elaine Evans â mi ar daith o amgylch y ffatri garthffosiaeth yn Netpool pan gawsom sylw mewn fideo mewnol byr. Byddwn yn ailymweld pan fydd gwaith ar yr estyniad yn mynd rhagddo.
- Mynychais "diwrnod cwrdd i ffwrdd" Cymorth i Ferched i gwrdd â thîm y sefydliad. Byddaf yn parhau i gefnogi'r grŵp hwn gyda'u gwaith.
- Mae'r Gymdeithas Macwlaidd yn awr yn cyfarfod bob ail ddydd Mawrth o'r mis yn Ystafell Radley, Neuadd y Dref. Fel Hyrwyddwr Golwg byddaf yn mynychu'r sesiynau hyn ac yn dymuno gwahodd unrhyw un a fydd yn elwa o'r sesiynau cyfeillgar hyn i ddod draw.
- Mynychais gweithdy Ymwybyddiaeth Casineb a gynhaliwyd gan CSC a gweithdy Tuedd Anymwybodol.
- Braf oedd ymuno â'r Cynghorydd Elaine Evans, yn nathliadau penblwydd Jig-So yn 31 a gynhaliwyd yn Eglwys Bywyd Newydd ar 21 Tachwedd. Roedd yn fore hyfryd yn llawn plant yn mwynhau eu hunain ac yn gyfle i ddal i fyny gyda'r ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr anhygoel yno.

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- Due to several issues with parking charges at the Leisure Centre, the cameras have been redirected to the correct positioning and the times of parking have been amended. After much correspondence, some people have had their parking notices revoked or had a refund of the charges.
- Joined a small gathering of fellow councillors, and members of the British Legion at the Cenotaph on the 11 November to recognise this important date. Rev Alan Kent conducted a short service. The larger service with the public took place the next day, we were honoured to be joined by the Lord Lieutenant of Dyfed, Ms Sara Edwards and the Ceredigion Council Chairman, Cllr Maldwyn Lewis. This is such an important date to honour the sacrifices made by so many.
- Attended the AGM of the Depot, a café and venue for our young people, where they can access several services if required.
- Enjoyed a very interesting afternoon at the Dyfed Powys Police Headquarters in Nantycaws. Several aspects of their work were explained to us including the growing use of drones and CCTV.
- Cllr Elaine Evans joined me on a tour of the sewerage plant in Netpool when we featured in a short internal video. We will revisit when work is underway with the extension.
- Attended the Women's Aid "away day" to meet with the team from the organisation. I will continue to support this group with their work.
- The Macular Society are now meeting every second Tuesday of the month in the Radley Room, Guildhall. As the Sight Champion I will attend these sessions and wish to invite anyone who will benefit from these friendly sessions to come along.
- Attended a Hate Awareness workshop held by CCC and an Unconscious Bias workshop.
- It was great to join Cllr Elaine Evans, at Jig-So's 31st birthday celebrations held at New Life Church on 21st November. It was a lovely morning full of children enjoying themselves and a chance to catch up with the amazing trustees, staff and volunteers there.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.

i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**

Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.

ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**

Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.

Maes Sgrialu /Skateboard Park

Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.

iii. **Cyffredinol / General**

Mae'r holl blannwyr a thybiau wedi'u clirio a'u hailblannu.

Bydd proses sefydlu ar y gweill y mis hwn gyda'r Bachan Deche newydd i rannu fy ngwybodaeth a mynd ag ef o amgylch y dref.

Wrth drefnu i atgyweirio bowser dŵr y cyngor, rwyf wedi gofyn i Geraint, Glan Thomas am ddyfynbris ac unwaith y caiff ei gymeradwyo bydd yn cael ei wneud yn y Flwyddyn Newydd.

All planters and tubs have been cleared and replanted.

There will be an induction process underway this month with the new Handyman to share my knowledge and take him around the town.

Currently arranging to repair the council water bowser, I have asked Geraint at Glan Thomas for a quote and once approved it will be done in the New Year.

10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

Rhoi wyneb newydd ar Heol Eglwys Fair isaf

Bin sbwriel y tu allan i TM Daniel

Items for the next Agenda

Resurfacing lower St Mary Street

Refuse bin outside TM Daniel

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.00yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 8.00pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date